


Brig y Goeden



Clustiau Rhyfeddol

Owen Bowen

DAVID COX
AC ERICA JAMES



Clustiau Rhyfeddol
Owen Bowen

DAVID COX ac ERICA JAMES

Lluniau gan Pat McCarthy



DRAKE

Mor glyfar â'r Tywysog Tomos



“Pum gwaith pump!” meddai Mrs Marc.

Roedd ganddi ffordd o ddweud pethau'n dawel oedd yn swnio fel petai'n gweiddi arnoch chi.

Ysgrifennodd pob un yn y dosbarth rywbeth yn ei lyfr ar wahân i Owen.

Brathodd ei bensel. Beth oedd yr ateb?
Byddai'n dda ganddo petai'n gallu gweithio'r ateb allan. Ond fedrai e ddim.

Y drafferth oedd, doedd Owen yn dda i ddim gyda symiau. Doedd dim ots pa mor galed roedd e'n ceisio, doedd e'n cofio dim pellach na thabl tri.

Teimlodd ei glustiau'n dechrau wiglo eto.

Edrychodd Malan Morris ar Owen a dechrau gwenu.


Edrychodd Mrs Marc arni a gofyn yn siarp, "Malan! Beth sy'n bod?"



Gwridodd Malan. "Dim, Mrs Marc," meddai. Ond gallai Mrs Marc weld trosti ei hun bod clustiau Owen yn wiglo. Y broblem oedd, nid wiglo ychydig bach roedd clustiau Owen. Roedden nhw'n wiglo ac yn siglo fel petaen nhw'n chwifio arnoch chi.

"Owen Bowen!" meddai. "Rho'r gorau iddi ar unwaith. Petaet yn treulio cymaint o amser wrth dy waith ag ar wiglo dy glustiau, gallet fod mor glyfar â'r Tywysog Tomos."





Gwenodd pawb yn y dosbarth. Roedd pawb yn gwybod bod Owen yn eithaf tebyg i'r Tywysog Tomos.

Ochneidiodd Owen. Roedd wedi cael llond bol ar jôcs am edrych fel tywysog.

“Gobeithio eich bod i gyd am wylïo'r Tywysog Tomos heno,” meddai Mrs Marc.



Gwyddai pawb mor glyfar gyda symiau oedd y Tywysog Tomos. Roedd y Tywysog Tomos yn gwybod ei dablau.

Bob blwyddyn âi'r Brenin ar y teledu ac âi un o'i blant gydag e. Y llynedd, y Dywysoges Natasha oedd yno yn chwarae ei thrombôn.



Eleni, roedd y Tywysog Tomos yn mynd i adrodd ei dablau.

Âi torf enfawr i'r sioe deledu frenhinol. Bob blwyddyn, ar ddiwedd y sioe, roedd yn rhaid i'r dorf guro dwylo a bloeddio hwrê. Yna byddai'r Brenin yn rhoi araith fawr. Bob tro, byddai'n dechrau gyda, "Mae clyfrwch yn ei amlygu'i hun mewn sawl ffordd. Mae ar ei fwyaf rhyfeddol pan ddaw i'r amlwg mewn rhywun ifanc. Mae'r plant brenhinol..."



Bob tro y byddai'r plant brenhinol ar y teledu, byddai mam a thad Owen yn cwyno wrth Owen. "Efallai dy fod yn edrych fel y Tywysog Tomos," bydden nhw'n dweud, "ond ei di byth ar y teledu am wiglo dy glustiau."

Y prynhawn hwnnw ar ôl gorffen ei de, dechreuodd Owen ar ei waith cartref. Ar ôl munud neu ddwy, rhoddodd y ffidil yn y to a throi at y teledu. Roedd dynes yn siarad. "Heno, bydd rhaid i bawb wyllo y Tywysog Tomos." Diffoddodd Owen y teledu.

Aeth allan ac eistedd ar stepen y drws. Gallai glywed cerddoriaeth yn chwarae ar y radio drws nesaf. Dechreuodd wiglo ei glustiau. Yr un chwith i ddechrau. Yna'r un dde. Mewn dim o beth, roedd y ddwy glust yn wiglo yn ôl ac ymlaen gyda'r gerddoriaeth.

Daeth Mrs Huws drws nesaf heibio. "Rwy'ti'n dda, Owen," meddai. "Rwy'ti'n berfformiwr bach da."

"Does neb arall yn meddwl hynny," cwynodd Owen.



Chwilio yn y dirgel



Gyda hynny, gyrodd car yn araf i mewn i stryd Owen. Stopiodd y tu allan i dŷ Owen. Camodd dyn a dynes allan. Roedd llun gan y dyn. Er syndod i Owen, cerddon nhw ato fe.

Edrychodd y dyn ar Owen. Yna edrychodd ar y llun. "Mae'n rhyfeddol," meddai.



Daeth mam a thad Owen allan. “Beth sy’n digwydd?” gofynnodd Mr Bowen.

“Rydyn ni o’r Palas Brenhinol,” eglurodd y ddynes. “Mae smotiau coch ar y Tywysog Tomos. Efallai mai brech yr ieir yw hi. Fedr e ddim mynd ar y sioe deledu frenhinol heno. Mae’r Brenin wedi’n gorchymyn ni i chwilio yn y dirgel am rywun sy’n debyg i’r Tywysog Tomos.”

Tynnodd hi goron allan a’i rhoi ar ben Owen. Dangosodd y dyn y llun.



Ebychodd Mrs Bowen. “Owen ni yw hwnna,” gwaeddodd.

“Nage wir,” meddai’r dyn. “Y Tywysog Tomos yw e. Mae angen eich mab chi arnon ni i gymryd lle y Tywysog Tomos ar y sioe heno.”

Agorodd Mr Bowen ei geg. Ac yna ei chau eto. “Ar y teledu? Owen ni? Byddwn ni i gyd yn enwog!” meddai o’r diwedd.

“O na fyddwch,” arthiodd y ddynes. “Fydd neb yn gwybod. Pan fydd Owen yn mynd ar y teledu heno, rhaid i bawb feddwl mai ef *yw*’r tywysog. Bydd yn rhaid i chi gadw’r gyfrinach am byth.”

“Gawn ni gwrdd â’r Brenin a’r Frenhines?” meddai mam Owen.

“Fydd yna wobwr?” meddai tad Owen.

“Efallai,” atebodd y dyn. “Ond nawr mae’n rhaid inni fynd ag Owen i’r stiwdio deledu.”



Teimlodd Owen ei waed yn oeri. Onid oedd y Tywysog Tomos yn mynd ar y teledu i adrodd ei dablau? Fedrai Owen ddim mynd ymhellach na thabl tri. Ac am symiau... “Ond Mam! Ond Dad!” dechreuodd Owen. Ond doedd dim pwynt. Doedd neb yn gwrando.

Cyn y medrai Owen ddweud yr un gair arall, roedd e yn y car gyda’i fam a’i dad. Roedden nhw ar eu ffordd.



Eisteddodd Owen yng nghefn y car. Roedd e'n llawn gofid. Sut fedrai e esgus mai ef oedd y Tywysog Tomos?

“Awn ni i'r stiwdio deledu nawr,” meddai'r ddynes. “Rhaid i Owen baratoi. A rhaid inni wneud rhywbeth ynglŷn â'i glustiau.”

O'r diwedd ebychodd Owen, “Ond mae'r Tywysog Tomos i fod i ddangos mor glyfar yw e. Mae e i fod i adrodd ei dablau. Fedra i ddim gwneud hynny!”

Snwffiodd y ddynes. “Does dim rhaid i ti fod yn glyfar. Bydd yr atebion i gyd ar sgrîn o dy flaen.” Sylodd arno. “Rwyt ti'n gallu darllen, wyt ti?”

“Wrth gwrs 'mod i,” meddai Owen.

“Iawn,” meddai. “Fydd neb arall yn gallu gweld y sgrîn. Fydd neb yn gwybod nad wyt ti'n gwybod dy dablau.”





Roedd y Brenin yn camu'n ôl ac ymlaen yn y stiwdio deledu. "Fedra i ddim aros eiliad arall," meddai. "Mae'n rhaid eu bod wedi cael hyd i rywun tebyg i'r Tywysog Tomos erbyn hyn."

Ar y gair, cyrhaeddodd Owen a'i rieni.

Ymgrymodd Mr Bowen. "Dyma Owen," meddai. "Rwy'n falch ein bod ni'n gallu eich helpu, Eich Mawrhydi."


Edrychodd y Brenin ar Owen. Gwenodd. "Mae'n rhyfeddol," meddai. "Gallech chi fod yn Tomos, ar wahân i'r clustiau. Gwisgwch goron Tomos a chuddiwch eich clustiau."

"Ond Eich Mawrhydi," meddai Owen. "Nid y Tywysog Tomos ydw i. Dydw i ddim am esgus mai'r Tywysog ydw i."

"Nonsens," meddai'r Brenin. "Rwyt ti'r un ffunud ag e. Dyna sy'n bwysig. Gwna fel mae pobl yn ei ddweud a darllen y sgrîn."



Roedd yn bryd i'r sioe ddechrau. Eisteddai'r bobl yn eu seddau. Eisteddai Owen mewn cadair fawr. Roedd cerddoriaeth yn chwarae. Yna siaradodd dyn â gwên fawr â'r camera. "Noswaith dda, bawb. Heno rydym yn hapus i groesawu ein tywysog ifanc i'r sioe. Mae'r Tywysog Tomos yn mynd i adrodd tabl wyth. Am hogyn clyfar!"



Disgleiriodd y goleuadau ar Owen. Cyfrifodd dynes â chyrn clust i fyny i bump ar ei bysedd. Dywedodd llais yn ei glust, "Nawr-" Ac roedd Owen ar y teledu.

Teimlai Owen ei galon yn curo. Edrychodd am y sgrîn â'r atebion. Dyna hi o'i flaen e. Pesychodd, a dechrau darllen. "Un wyth yw wyth," meddai'n uchel.

Yna gwagiodd y sgrîn.



Owen yn cyfrif



Teimlai stumog Owen fel petai pryfed yn dawnsio ynddi. Roedd e am daflu i fyny. Gwyddai beth oedd yr ateb nesaf felly meddai, “Dau wyth yw un deg chwech.” Beth oedd tri wyth?

Dechreuodd ei glustiau wiglo. Simsanodd coron y Tywysog Tomos o un ochr i'r llall. Teimlodd Owen y goron yn llithro dros ei lygaid yn araf bach.

Tynnodd y goron. Roedd hyn yn ddigon i wneud i'w glustiau stopio wiglo.

Yna siaradodd y dyn eto. Doedd e ddim yn swnio mor hapus nawr. “Wel, y Tywysog Tomos, beth yw tri wyth?”

Ceisiodd Owen gyfrif yr ateb ar ei fysedd. Tynnodd ei esgidiau a'i sanau a chyfrif bysedd ei draed hefyd. Ond doedd dim pwynt. Doedd dim digon o fysedd a bysedd traed ganddo fe.

Galwodd un neu ddau, “Tyrd yn dy flaen! Beth yw tri wyth?” Teimlai Owen yn ofnadwy. Roedd am weiddi, “Nid y Tywysog Tomos ydw i. Owen Bowen ydw i.” Ond fedrai e ddim dweud gair.



Yna digwyddodd rhywbeth rhyfedd.
Dechreuodd clustiau Owen symud eto. Wiglon
nhw yn ôl ac ymlaen yn araf bach.

Dechreuodd y dorf gyfrif. “Un... dau... tri...”
Fflapiodd y clustiau ddau ddeg pedwar o
weithiau, sef tri wyth yn union.

Galwodd rhywun, “Beth am bedwar wyth?”
Wiglodd y clustiau dri deg dau o weithiau.




“Mae ei glustiau’n gywir!” galwodd dwy wraig
o’r rhes flaen. Bloeddiodd y dorf hwrê.

Erbyn i glustiau Owen gyfrif deg wyth, roedd y
dorf yn neidio i fyny ac i lawr mewn cynnwrf.

Edrychodd y dyn ar y Brenin. Edrychodd ar
Owen. Wyddai e ddim beth i’w wneud. “Y... Diolch,
y Tywysog Tomos ... y... Neu ddylwn i ddweud,
‘Diolch i glustiau y Tywysog Tomos?’”

Chwarddodd pawb, ond y Brenin. “Nawr bydd
y tywysog yn gwneud symiau,” gwaeddodd.



“Paid, Dad,” galwodd llais.

Rhuthrodd dau blentyn ar draws y stiwdio. Y Dywysoges Natasha oedd un. Y llall oedd y Tywysog Tomos go iawn. Nawr roedd dau Dywysog Tomos o flaen y camera.

Pwyntiodd y Dywysoges Natasha at Owen. “Nid y Tywysog Tomos yw hwn,” meddai.

“Na, Owen Bowen ydw i,” meddai Owen.

Ochneidiodd pawb. Aeth wyneb y Brenin yn goch. Llewsgodd Mrs Bowen.

Aeth y Dywysoges Natasha yn ei blaen, “Dyw’r Tywysog Tomos ddim yn dda iawn gyda symiau. Mae’n gas ganddo fynd ar y teledu. Mae’n gas gan y ddau ohonom. Llynedd, roedd yn rhaid i fi esgus chwarae’r trombôn. Fedra i mo’i chwarae o gwbl go iawn.”

Erbyn hyn roedd y Brenin wedi neidio ar ei draed. Dechreuodd ruo, “Stopiwch y sioe! Tomos! Dylet ti fod yn y gwely gyda’r smotiau. Natasha! Bydd yn dawel!”



Ond thalodd Natasha ddim sylw iddo. “Fi baentiodd y smotiau coch ar Tomos.”

“Ti!” gwaeddodd y Brenin.

“Ie,” meddai’r Tywysog Tomos. “Ond doedden ni ddim yn meddwl y byddech chi’n cael gafael ar rywun sy’n debyg i fi.”

“Felly daethon ni yma mewn tacsï,” aeth y Dywysoges Natasha ymlaen. “Roedd yn rhaid rhoi stop ar y sioe wirion hon. Rydyn ni’n ei chasáu am fod pawb yn chwerthin am ein pennau. Maen nhw’n meddwl ein bod ni’n boenus o berffaith.”



Rhoddodd y Brenin ei ben yn ei ddwylo.

“Ond rydyn ni wedi mynd ar y sioe deledu frenhinol erioed. Dyna ei phwrpas hi.”

“Ie,” meddai’r dyn. Doedd e ddim yn edrych yn hapus o gwbl. “Beth am fy sioe i?”

“Gwn i,” meddai Owen yn ddewr. “Beth am roi sioe ymlaen fydd plant yn ei hoffi go iawn. Gallai plant o bob rhan o’r wlad fynd arni.”





“Wow! Chwilio am dalent newydd,” meddai'r Tywysog Tomos. “Am syniad da.”

“Tyrd ymlaen, Dad,” meddai'r Dywysoges Natasha. “Dywed ie.”

Aeth y Brenin yn wyn ac yna aeth yn goch. Wedyn aeth yn biws. Ond roedd pawb yn y stiwdio wedi dechrau curo dwylo a bloeddio hwrê.

“Wel... o'r gorau,” cytunodd. “Ond rhaid i fy mhlant i ddweud wrth bawb beth i'w wneud.”

“Na, Dad,” meddai'r Tywysog Tomos. “Dydyn ni ddim am ddangos ein hunain byth eto.”

“Gall Owen wneud ei dablau i gyd,” taranodd y Brenin. “A chaiff ddysgu symiau i bawb â'i glustiau.”

Ochneidiodd y Tywysog Tomos a'r Dywysoges Natasha.


“Dim symiau, diolch,” meddai Owen. Yna gwenodd. Roedd yn mwynhau ei hun ar y teledu. Wiglodd ei glustiau. “Ond arhoswch chi. Un diwrnod fi fydd seren go iawn y sioe.”



Am yr awdur

Cefais fy ngeni yn Llundain ym 1963, yr ieuengaf o saith o blant. Byddaf yn gweld rhywbeth sy'n werth ysgrifennu amdano o leiaf ddwywaith y dydd.

Unwaith gwelais eliffant yn gwthio troli siopa o gwmpas maes parcio archfarchnad. Do, wir. Roedd yr eliffant druan wedi dianc o syrcais. Wyddwn ni mo hynny ar y pryd ac roeddwn i'n meddwl ei fod yn chwilio am ei gar. Efallai mewn stori y gallai fod.



Rhag ofn eich bod yn dyfalu, nid Erica James yw enw iawn fy nghyd-awdur. Ffug-enw yw e ar awdur enwog i blant.

Llyfrau Brig y Goeden yng Ngham 11:

Fflaniau'n Fflio gan Nick Warburton

Anodd eu Plesio gan Nick Warburton

Siwt Syr gan Nick Warburton

Ffion a'r Draenogod gan John Coldwell

Clustiau Rhyfeddol Owen Bowen gan David Cox ac Erica James

Cynllun Cyfrwys Sara gan John Coldwell

Esgidiau Ymarfer Peryglus gan Susan Gates

Ieu a Dei ar Waith gan Nick Warburton

Cewri Carys gan Nick Warburton

Cysle Mawr Manon gan John Coldwell



Clustiau Rhyfeddol

Owen Bowen

Mae Owen Bowen yn bencampwr ar wiglo ei glustiau. Ond does gan neb ddiddordeb, dim hyd yn oed ei fam a'i dad. "Pam na fedri di fod yn fwy tebyg i'r Tywysog Tomos?" maen nhw'n cwyno. "Mae e'n cael ei symiau'n gywir bob tro. Ei di byth ar y teledu trwy wiglo dy glustiau."

Ond un diwrnod caiff Owen gyfle i brofi eu bod yn anghywir.



ISBN 0-86174-448-9



9 780861 744480

ISBN 0 86174 448 9

DRAKE